# Arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle. Mae'r gofynion yn cynnwys cyfrannu at adnabod potensial ar gyfer datblygu neu adolygu yn y gweithle a chyflwyno gwybodaeth a syniadau i gyfrannu at newidiadau yn y gweithle. Mae hefyd yn cynnwys gweithredu a gwerthuso'r newidiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arwain o ran adnabod meysydd i'w newid ym mholisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
2. adnabod a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun, unigolion ac eraill o ran newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
3. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i gasglu a darparu gwybodaeth hygyrch am feysydd i'w newid yn y gweithle
4. datblygu a chynnal systemau cyfathrebu y cytunwyd arnynt ar gyfer newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
5. arwain y gwaith o sefydlu pwrpas, nodau ac amcanion ar gyfer newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
6. cytuno ag unigolion ac eraill ar y dulliau, yr amserlenni a'r adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â'r nodau ac amcanion ar gyfer newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
7. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i nodi unrhyw heriau a sut y byddir yn mynd i'r afael â'r rhain
8. arwain y gwaith o roi newidiadau ar waith ym mholisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
9. grymuso a chefnogi eraill i ymwneud â newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
10. gwerthuso, ar y cyd ag unigolion ac eraill, sut mae newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle wedi cwrdd â'r nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt
11. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i arwain o ran newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. polisïau, gweithdrefnau ac arferion eich gweithle, a’r rhesymau dros newid
2. pam ei fod yn bwysig ymateb, a gweithredu ar y newidiadau a nodwyd
3. dulliau monitro a gwerthuso gwahanol yn y gweithle
4. rolau a chyfrifoldebau unigolion ac eraill o ran newidiadau yn y gweithle, a sut i gydlynu’r rhain
5. dulliau ymchwil ar gyfer newidiadau yn y gweithle
6. ystod o ddulliau cyflwyno hygyrch ar gyfer gwybodaeth a syniadau am newidiadau yn y gweithle
7. sut mae sefydlu pwrpas, nodau ac amcanion ar gyfer newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
8. pwysigrwydd grymuso a chefnogi eraill yn ystod y newid
9. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma ym mholisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
10. y mathau o wybodaeth, adnoddau, cymorth, a dysg a datblygiad sydd ar gael yn ystod y newid yn y gweithle
11. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i ddarparu gwybodaeth
12. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
13. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion ac eraill drwy newid yn y gweithle
14. sut mae cydweithio ag unigolion ac eraill i adolygu a gwerthuso newidiadau yn y gweithle, a pham fod hyn yn bwysig
15. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth roi newidiadau ar waith yn y gweithle
16. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol yn ystod newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion
17. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
18. theorïau sy'n berthnasol i arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle

20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle
22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle, a sut i fynd i'r afael â hyn
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu o ran newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD421 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Newidiadau i Bolisiau, Gweithdrefnau ac Arferion, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |